
# *Newid Bywydau*: cefnogaeth ymarferol i weithwyr plant




Heb os, bu'r ddwy flynedd ddiwethaf hyn yn rhai heriol iawn i weithgarwch gyda phlant yn yr eglwys, a gwelwyd llawer yn penderfynu rhoi'r gorau i fod yn athrawon ac yn arweinwyr. Mae'n debyg y bydd angen i eraill gamu i'r adwy i barhau'r traddodiad o gyflwyno'r efengyl i'n plant. Bydd llawer, fodd bynnag, yn teimlo'n ddihyder ac yn chwilio am ganllaw ac arweiniad. Mae *Newid Bywydau* yn cynnig yr arweiniad hwnnw mewn cyfrol hwylus a chryno. Os ydych yn gweithio gyda phlant ac ieuenctid yn yr eglwys (neu'n ystyried dechrau gwneud hynny), dyma gyfrol allai fod o gymorth i chi; mae'n sôn am faterion ymarferol ac ysbrydol mewn perthynas â gweithio gyda phlant mewn ysgol Sul / clwb plant / clwb ieuenctid.

Mae Cyngor yr Ysgolion Sul yn falch iawn o'r cyfle i gael cydweithio ag Athrofa Padarn Sant, Caerdydd, i hyrwyddo a hybu llyfr Cymraeg gan Mark Griffiths yn dwyn y teitl *Newid Bywydau*. Mae Mark wedi bod yn ffigwr amlwg ym maes gweinidogaeth plant ac ieuenctid ers nifer fawr o flynyddoedd, ac wedi cyhoeddi cyfrolau ar ysbrydolrwydd plant, sut i weinidogaethu ymhlith plant, a sawl cyfrol o wersi Beiblaidd i blant. Magwyd Mark yn ne Cymru, ond treuliodd flynyddoedd lawer yn gweinidogaethu yn Lloegr, ac yn arwain gweinidogaeth New Wine. Erbyn hyn mae'n hyfforddi ar waith plant, ieuenctid a theuluoedd yn Athrofa Padarn Sant yng Nghaerdydd, sef adain hyfforddiant yr Eglwys yng Nghymru.

Rai blynyddoedd yn ôl fe gyhoeddodd Mark lyfr i gwmni cyhoeddi Lion Publishing yn dwyn y teitl *Changing Lives: touching hearts*, cyfrol oedd yn cynnig canllawiau ymarferol ar sut i weithio'n genhadol ymhlith plant. Yn ystod y misoedd diwethaf hyn aed ati i gyfieithu'r gyfrol i'r Gymraeg. Mae *Newid Bywydau* yn trafod y cyfan fyddech am ei wybod am weithio gyda phlant a theuluoedd – sut, pryd, ble a pham?

Treiddia Mark Griffiths i mewn i hanes, diwinyddiaeth ac elfennau ymarferol gweinidogaeth gyda phlant a theuluoedd. Mae'n rhannu ei ddoethineb a'i flynyddoedd o brofiad yn arwain cannoedd o grwpiau gwaith plant ac o gynnal gwasanaethau mewn eglwysi. Mae hwn yn llawlyfr sy'n llawn syniadau ac adnoddau ymarferol, gan ddangos sut i gyfathrebu â phlant mewn eglwys ac ysgol, ac yn y gymuned.

Fe'n cynorthwya i ddatblygu gweledigaeth ac i lunio strategaeth ar gyfer gweinidogaethu i blant a theuluoedd, y tu mewn a'r tu allan i strwythurau ein heglwysi. Mae'n trafod materion fel cadw cofnodion, ymweld â chartrefi, trefnu amserlen a chynllun gwaith, pwysigrwydd gwarchod a diogelu, llunio templedi ar greu gwersi bywiog a chadw diddordeb y plant. Dyma ganllaw allweddol ac ymarferol i bawb sy'n gweithio gyda phlant.

Nid yw'r gyfrol hon ar gael yn y siopau, ond mae modd archebu copi trwy yrru siec am £12 yn daladwy i 'Cyngor Ysgolion Sul' at Aled Davies, Cyngor yr Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH.

Noder hefyd y bydd Cyngor yr Ysgolion Sul yn trefnu taith o ugain noson o gwmpas Cymru – deg noson yn ystod mis Gorffennaf a deg noson arall ddechrau mis Medi – er mwyn cyflwyno'r adnoddau diweddaraf sydd ar gael gennym. Fe ddaw mwy o wybodaeth am ddyddiadau a lleoliadau yn fuan.

**Tybed ydych chi'n darllen hwn ac yn byw mewn ardal lle nad oes ysgol Sul neu glwb plant ar hyn o bryd?**

Efallai fod Duw yn eich galw chi i sefydlu gwaith newydd.

**Beth am drafod gydag eraill o'ch cwmpas i weld a oes cyfle i gydweithio?**

**Aled Davies**
www.ysgolsul.com

## Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau i'r Parchedig Athro Densil Morgan, Cadeirydd Grŵp Llywio *Cenn@d*, ar ennill gwobr Francis Jones am Hanes Cymru, Coleg Iesu, Rhydychen, am y gwaith gorau ar hanes Cymru a gyhoeddwyd yn 2021. Dyfarnwyd y wobr iddo am ei ddwy gyfrol, *Theologia Cambrensis: Protestant Religion and Theology in Wales.*

**DATHLIAD CENHADOL MERCHED Y GOGLEDD**

**HENADURIAETH MÔN**

**CAPEL DISGWYLFA, GAERWEN**
**DYDD MERCHER MAI 4ydd, 2022**
**am 2 o'r gloch**

**SIARADWRAIG WADD:**

**Dr Rhiannon Ifans, Aberystwyth**
**ar y thema**
***Gobaith yn Iesu 'Yr Alffa ac Omega'***

**Croeso Cynnes i Bawb**



LL60 6DN

**Gwneir casgliad at waith Cenhadol a Phrosiectau Is-bwyllgor y Chwiorydd**